O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1428 (Cy. 171)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, i'r Gogledd o Lanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*7 Mehefin 2011*
Yn dod i rym	*20 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, i'r Gogledd o Lanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mehefin 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy, Maenan, i'r gogledd o Lanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 yn gyfagos i'r eiddo a elwir Troed-y-rhiw hyd at bwynt yn ei chyffordd â'r fynedfa at Fferm Bod Hyfryd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.